

SL(5)818 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2021

Cafodd y nodyn hwn ei baratoi er mwyn rhoi gwybodaeth i Aelodau o'r Senedd mewn perthynas â busnes y Cyfarfod Llawn ar 26 Mai 2021.

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") drwy addasu dros dro y ffordd y mae Lefel Rhybudd 3 yn gweithredu yng Nghymru. Mae cynnod yr addasiadau dros dro (sydd yn barod yn eu lle) wedi'i ymestyn hyd at ddiwedd y dydd ar 25 Ebrill 2021.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud addasiadau dros dro ychwanegol, fel a ganlyn:

- (i) dileu'r cyfyngiadau ar ganfasio. Mae dyletswydd ar ganfaswyr i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, a'r risg o'i drosglwyddo, pan fyddant yn cyflawni'r gweithgaredd hwn, a phan fyddant yn cymryd y mesurau hynny rhaid iddynt ystyried canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru;
- (ii) galluogi siopau nad ydynt yn hanfodol i ailagor;
- (iii) caniatáu i wasanaethau cysylltiad agos ailagor, gan gynnwys gwasanaethau symudol yng nghartrefi pobl megis trinwyr gwallt yn y cartref;
- (iv) dileu'r cyfyngiadau er mwyn caniatáu i bobl nawr ymweld drwy apwyntiad â safleoedd a ddefnyddir ar gyfer priodas, partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall;
a
- (v) chaniatáu i amlosgfeydd agor yn llawn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r cyfyngiadau presennol ar deithio o fewn y DU ac i/o'r ardal deithio gyffredin, ac yn gosod cyfyngiadau a gofynion newydd ar deithio rhyngwladol (a fydd mewn grym ym mhob Lefel Rhybudd), gan gynnwys:

- (i) cyfyngiadau i wahardd teithio rhyngwladol heb esgus rhesymol. Mae person sy'n ceisio teithio i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin heb esgus rhesymol yn euog o drosedd ac mae'n bosibl y bydd yn wynebu Cosb Benodedig o £5,000; a
- (ii) chyflwyno gofyniad i unrhyw berson sydd mewn man cychwyn (er enghraifft, maes awyr) ac sy'n ceisio ymadael â'r ardal deithio gyffredin gydag esgus rhesymol ddarparu ffurflen datganiad teithio rhyngwladol wedi'i chwblhau, gan nodi'r rhesymau dros deithio, i swyddog gorfodaeth ar gais. Mae'n bosibl y dyroddir Cosb Benodedig o £60 i berson sy'n methu â chwblhau ffurflen datganiad neu sy'n darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol ar y ffurflen.



O ganlyniad i'r darpariaethau newydd sy'n gysylltiedig â theithio rhyngwladol, mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020. Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 yn sicrhau bod teithwyr yn cael gwybod am y gofynion teithio a'r canllawiau ynghylch iechyd y cyhoedd sydd mewn grym yng Nghymru. Diwygir y rhain i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau perthnasol sy'n ymadael â Chymru i fynd i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin ddarparu gwybodaeth i deithwyr ynghylch y cyfyngiad ar ymadael â Chymru i fynd i gyrchfan o'r fath, a'r gofyniad i gwblhau ffurflen datganiad teithio rhyngwladol. Mae'r wybodaeth hon i'w darparu ar yr adeg archebu ac o leiaf 24 awr cyn yr amser y disgwylir i'r gwasanaeth ymadael

Gweithdrefn

Cadarnhaol 'gwnaed'.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gwneud er mwyn iddynt barhau i fod yn weithredol.

Pwyntiau i'w nodi

1. Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r gyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd



sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny.

Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. I'r graddau y gallant o bosibl gyffwrdd ag unrhyw hawliau o'r fath, mae'r Llywodraeth o'r farn bod yr ymyrraeth yn fach iawn ac y gellir ei chyfiawnhau fel ymyrraeth angenrheidiol a chymesur i gyflawni nod dilys. Nid yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a wneir gan y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y maent yn cyffwrdd â hawliau unigol."

2. Nodwn nad oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

3. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Cynghorwyr Cyfreithiol

28 Ebrill 2021

